

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni



Cynnwys y Cynllun Pontio

- Gwybodaeth am weithdrefnau **Pontio Ffurfiol**
- Gwybodaeth am weithdrefnau **Pontio Ychwanegol**
- Gwybodaeth am gydweithio ar y **Cwricwlwm i Gymru**
- **Staff** allweddol, eu rolau a chyfrifoldebau
- **Calendr** digwyddiadau pontio a gwaith clwstwr

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Diben Cynllun Pontio Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Calon y cyfan yw cynnydd disgyblion

Mae'r cydweithio rhwng yr holl ysgolion yn hanfodol er mwyn arddel safonau uchel ar draws y clwstwr a sicrhau bod y trefniadau pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd yn effeithiol. Mae'r cydweithio yn anelu at sicrhau fod pob disgybl sy'n mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn Awdurdod Addysg Cyngor Sir Caerffili yn derbyn cyfleoedd addysgiadol o'r radd uchaf ac sy'n eu galluogi i wireddu eu potensial.

Trwy gydweithio effeithiol, mae'n bosib cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a gweithgareddau yn yr ysgol gynradd ac yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i hybu datblygiad disgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion wrth hwyluso'r broses o bontio. Yn yr un modd, mae ceisio sicrhau cysondeb o ran asesu a mabwysiadu gweithdrefnau cytûn lle bo'n addas tra'n parchu egwyddorion y cwricwlwm newydd yn allweddol er mwyn ein galluogi i sicrhau her a chefnogaeth briodol i bob disgybl wrth drosgwlyddo o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Cydnabuem fod paratoi yn llwyddiannus ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn broses hir, yn daith i'w chymryd ar y cyd fel 12 ysgol y clwstwr gan gydweithio'n agos wrth geisio cyfeiriannu trwy'r daith honno. I'r perwyl hynny, mabwysiadwyd y gair '**CWMPAWD**' fel acronym er mwyn cynrychioli pob agwedd o'n gwaith. Y nod, serch blaenoriaethau unigol pob ysgol, yw sicrhau ein bod yn ystyried yr agweddau isod o berspectif yr holl gontiniwmm addysg hyd at Flwyddyn 11.

Matthew McAvoy, Arweinydd Pontio

C

Cymuned - diwallu anghenion ein cymunedau

W

Y Weledigaeth - adnabod ein gwerthoedd a'n dyheadau cytûn

M

Meysydd - cyd-gynllunio a rhannu arbenigedd mewn 6 MDaPh

P

Pontio - sicrhau pontio llyfn rhwng camau cynnydd, a chynradd i uwchradd

A

Addysgeg - datblygu a rhannu'r arferion addysgeg gorau

W

Wynebu Heriau - cydweithredu'n strategol er mwyn goresgyn pob her

D

Dilyniant - sicrhau gweithdrefnau asesu, cymedroli a thracio effeithiol

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Y Tîm Llywio: Y Cynllun Pontio

Y Sector Uwchradd

Ysgol	Arweinwyr
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Matthew Webb - Pennaeth
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Matthew McAvoy - Arweinydd Pontio

Y Sector Cynradd - ysgolion sy'n bwydo safle'r Gwyndy

Ysgol	Arweinwyr
Ysgol Gynradd Gymraeg y Castell	Helen Nuttall / Gareth Hughes - Pennaeth
Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili	Lynn Griffiths - Pennaeth
Ysgol Gymraeg Ifor Bach	Sarah Edmunds / Dian Morris - Pennaeth

Y Sector Cynradd - ysgolion sy'n bwydo safle Gellihaf

Ysgol	Arweinwyr
Ysgol Gymraeg Bro Allta	Meinir Jones - Pennaeth
Ysgol Penalltau	Andrea Woods - Pennaeth
Ysgol Bro Sannan	Jamie Hallett - Pennaeth
Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod	Jamie Hallett - Pennaeth
Ysgol Gymraeg Trelyn	Liz Owen - Pennaeth
Ysgol Gynradd y Lawnt	Sharon Davies - Pennaeth
Ysgol Gymraeg Cwm Derwen	Kathryn Matthews - Pennaeth
Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon	Helen Marsh - Pennaeth Gweithredol

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Gellihaf:

Tim Pontio Ffurfiol Blwyddyn 6 - 7

Matthew Webb



Pennaeth

Ysgol Gyfun
Cwm Rhymni

Ryan Jenkins



**Pennaeth
Cynorthwyol**

Swyddog
Diogelu Plant

Matthew McAvoy



**Pennaeth
Cynorthwyol**

Arweinydd
Clwstwr a
Phontio

Sarah Ward



Cyswllt ADY

Cydlynnydd
Pontio
Ychwanegol

Bethan Evans



**Arweinydd
CA 3**

Cydlynnydd
Pontio Ffurfiol

Owain Chick



**Pennaeth
Blwyddyn 7**

Prif-gyswllt
disgyblion a
rhieni

Y Gwyndy:

Tim Pontio Ffurfiol Blwyddyn 6 - 7

Matthew Webb



Pennaeth

Ysgol Gyfun
Cwm Rhymni

Rhys Thomas



**Dirprwy
Bennaeth**

Swyddog
Diogelu Plant

Matthew McAvoy



**Pennaeth
Cynorthwyol**

Arweinydd
Clwstwr a
Phontio

Sarah Ward



**Cyswllt
ADY**

Cydlynnydd
Pontio
Ychwanegol

Elin Williams



**Arweinydd
CA 3**

Cydlynnydd
Pontio Ffurfiol

Cleo Davies



**Pennaeth
Blwyddyn 7**

Prif-gyswllt
disgyblion a
rhieni

Cynllun Pontio 2022-2023

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Y Tîm Llywio:

Amlinelliad Cyfrifoldebau

Arweinydd Pontio	Pennaethiaid Cynradd	Athrawon Blwyddyn 6	Arweinwyr CA 3
- Mynychu cyfarfodydd pontio a chlwtwr - Cydlynw trosglwyddo gwybodaeth gan yr ysgolion cynradd - Rhaeadru gwybodaeth a threfnu cynrychiolwyr ar gyfer cyfarfodydd pontio a gwaith CiG - Trefnu rhaglen bontio'r flwyddyn - Arwain y Cydlynwdd Lles, CADY, Tîm Pontio Ffurfiola a Thîm CiG - Cyfathrebu gyda rhieni Blwyddyn 6 a threfnu nosweithiau agored - Llunio'r ddogfen Cynllun Pontio yn flynyddol	- Mynychu cyfarfodydd pontio a chlwtwr - Cyfathrebu gyda'r Pennaeth Pontio ac athrawon Blwyddyn 6 wrth drosglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion - Rhaeadru gwybodaeth a threfnu cynrychiolwyr ar gyfer cyfarfodydd pontio a gwaith CiG - Cyfrannu at y broses o ddatblygu Cwricwlwm i Gymru fel clwstwr a sicrhau cynnydd ac asesu cyson a llyfn - Cyfrannu at a chyhoeddi y Cynllun Pontio	- Trosglwyddo gwybodaeth cynnydd a lles i Ysgol Cwm Rhymni - Mynychu cyfarfodydd cydgyllunio a'r rhwydwaith dysgu proffesiynol - Trafod disgyblion gyda'r Tîm Pontio Ffurfiol - Mynychu cyfarfod yn ystod Tymor yr Haf i drafod dosbarthiadau dysgu Blwyddyn 7	- Trafod disgyblion gydag athrawon Blwyddyn 6 er mwyn creu dosbarthiadau dysgu Blwyddyn 7 - Coladu a rhannu gwybodaeth berthnasol am bob disgybl - Cymryd rhan mewn nosweithiau agored rhieni Tymor yr Hydref a'r Haf. - Trefnu diwrnodau pontio gyda phennaethiaid Blwyddyn 7

Pennaeth Blwyddyn 7	Cyswllt CADY YGCRh	Arweinwyr Medrau	Arweinwyr MDaPh
Cynorthwyo Arweinydd CA 3 er mwyn: - Trafod disgyblion gydag athrawon Blwyddyn 6 er mwyn creu dosbarthiadau dysgu Blwyddyn 7 - Coladu a rhannu gwybodaeth berthnasol am bob disgybl - Cymryd rhan mewn nosweithiau agored rhieni Tymor yr Hydref a'r Haf. - Trefnu diwrnodau pontio	- Mynychu cyfarfodydd blynyddol disgyblion ADY blwyddyn 5 a 6. - Trafod gyda'r CADY er mwyn casglu gwybodaeth cynhwysfawr a phenodol am ddisgyblion ADY. - Trefnu'r Cynllun Pontio Ychwanegol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 - Mynychu cyfarfod coladu a rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'r Tîm Pontio Ffurfiol	- Cydweithio gydag arweinwyr medrau yr ysgolion cynradd er mwyn sefydlu, gwerthuso a mireinio strategaethau clwtwr gyfan - creu/coladu adnoddau perthnasoel ar gyfer 12 ysgol y clwtwr - Cyfrannu at gyfarfod y Rhwydwaith Dysgu Proffesiynol yn Nhyddor yr Haf	- Cydweithio gydag arweinwyr MDaPh yr ysgolion cynradd er mwyn cryfhau cynlluniau gwaith, datblygu cysyniadau trwy'r camau cynnydd ac osgoi bylchau yn y dysgu gan gyfrannu at esmwythdod pontio Blwyddyn 6 i 7 - Sicrhau cyfathrebu rhwng arweinwyr y MDaPh - Creu a datblygu banc o arfer dda o ran adnoddau a strategaethau llwyddiannus er mwyn cynorthwyo athrawon dosbarth gyda'u gwaith

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol	
Ysgol	Cyswilt ADY
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Lisa Jones
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Sarah Ward
Ysgol Gynradd Bro Allta	Jo Undery
Ysgol Gynradd Penalltau	Lowri Owen
Ysgol Gynradd Bro Sannan	Rhian Lewis
Ysgol Gynradd Gilfach Fargod	Aled Hopton
Ysgol Gynradd Trelyn	Sarah Ward
Ysgol Gynradd y Lawnt	Carrie Underwood
Ysgol Gynradd Cwm Derwen	Elgan Griffiths a Phillipa Greenman
Ysgol Gynradd Cwm Gwyddon	Kirsty Knight
Ysgol Gymraeg Caerffili	Cerys Williams
Ysgol Gynradd y Castell	Kirten Field
Ysgol Gynradd Ifor Bach	Lowri Evans

Staff ychwanegol ynghlwm gyda threfniadau pontio 2022-23

Sharon Risby	Ymgysylltydd teuluol a llesiant / diogelu plant	Y Ddau Safle
Megan Morris	Swyddog cyfathrebu a gweinyddol	Y Ddau Safle
Lisa Jones	CADY/Arweinydd Clwstwr ADY	Y Ddau Safle
Sarah Williams	Lles - Pontio Ychwanegol	Y Gwyndy
Rachel Warden	Lles - Pontio Ychwanegol	Y Gwyndy
Catrin Flanagan	Lles - Pontio Ychwanegol	Y Gwyndy
Daisy Dando	Cydlynnydd anghenion dwys a chymhleth	Y Ddau Safle
Helen Lewis	Lles - Pontio Ychwanegol	Gellihaf
Garan Pearce	Cydlynnydd anghenion ymddygiadol	Y Ddau Safle
Bethan Phillips	Cydlynnydd anghenion iaith a Llythrennedd / cefnogaeth SpLD	Y Ddau Safle

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Cynllun Pontio o'r Ysgol Gynradd i Gwm Rhymni

Bwriadwn sicrhau fod pob disgybl yn dechrau eu cyfnod yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn frwdfrydig i ddatblygu ymhellach ac i adeiladu ar y cynnydd y maent eisoes wedi ei wneud yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a'r ysgolion cynradd yn gweithio'n agos iawn wrth rannu gwybodaeth a datblygu cynlluniau er mwyn sicrhau bod cyfnod cychwynnol y disgyblion yng Nghwm Rhymni yn un hapus a llwyddiannus.

Mae'r trefniadau pontio yn cynnwys:

- Cyfarfodydd Pontio
- Trosglwyddo Gwybodaeth
- Rhwydweithiau Dysgu Proffesiynol - cyfarfodydd craffu ar waith
- Nosweithiau Agored
- Cynllun Pontio Ychwanegol
- Gweithgareddau Pontio
- Cydweithio Clwstwr ar y Cwricwlwm i Gymru

Cyfarfodydd Pontio

Cynhelir cyfarfodydd pontio estynedig, wyneb yn wyneb ar ddechrau pob hanner tymor a chynhelir cyfarfodydd rhithiol awr pob tair wythnos. Bydd yr Arweinydd Pontio a phenaethiaid yr ysgolion cynradd yn mynychu'r cyfarfodydd yma. Trafodir gweithdrefnau a threfniadau pontio yn ogystal â chydgyllunio yn ôl 'CWMPAWD' er mwyn datblygu y Cwricwlwm i Gymru. Mae rhannu arfer dda yn greiddiol i'r cyfarfodydd.

Unwaith y flwyddyn, cynhelir diwrnod HMS clwstwr gyfan er mwyn datblygu'r cydweithio rhwng holl athrawon 12 ysgol y clwstwr.

Ar ôl hanner tymor y Sulgwyn, bydd arweinwyr Cyfnod Allweddol 3 a phenaethiaid Blwyddyn 7 yn ymweld â phob dosbarth Blwyddyn 6 er mwyn trafod dosbarthiadau dysgu disgyblion Blwyddyn 7 ym mis Medi.

Anelir hefyd at gynnal:

- cyfarfodydd er mwyn ymgynghori gydag athrawon Blwyddyn 6 ynglŷn â mireinio'r broses o bontio ffurfiol
- cyfarfodydd rhwng arweinwyr y medrau er mwyn cydweithio ar flaenoriaethau clwstwr gyfan
- cyfarfodydd rhwng arweinwyr y meysydd dysgu a phrofiad

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Trosglwyddo Gwybodaeth

Yn ystod y flwyddyn academaidd trosglwyddir gwybodaeth o'r ysgolion cynradd at Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth ansoddol am ddisgyblion yn ystod trafodaethau rhwng Arweinydd CA 3, Pennaeth BI 7 ac athrawon blynyddoedd 5 a 6 – rhan o'r broses ffurfio dosbarthiadau dysgu Blwyddyn 7.
- Gwybodaeth ansoddol am ddisgyblion yn ystod trafodaethau rhwng Cydlynnydd Lles Cwm Rhymni ac athrawon blynyddoedd 5 a 6 – rhan o'r broses ffurfio dosbarthiadau dysgu Blwyddyn 7.
- Gwybodaeth ffurfiol am ddisgyblion ADY yn ystod trafodaethau rhwng arweinwyr ADY Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a CADY pob ysgol gynradd unigol – rhan o'r broses ffurfio dosbarthiadau dysgu Blwyddyn 7 ac er mwyn asesu lefel cefnogaeth o ran ein strategaeth cynhwysiant
- Sgorau safonol y profion cenedlaethol - sy'n allweddol ar gyfer tracio cynnydd disgyblion Blwyddyn 7.
- Ffeiliau **CTF** yn cael eu trosglwyddo drwy sims.net ym mis Mawrth. Mae'r rhain yn cynnwys manylion personol.
- Gwybodaeth a dogfennaeth ADY ym mis Gorffennaf.
- Bydd athrawon Blwyddyn 6 yn cyflwyno taelen o wybodaeth a dat am gyrhaeddiad a lles disgyblion i'r Tim Pontio Ffurfiol erbyn Sulgwyn.

Rhwydweithiau Dysgu Proffesiynol - Craffu ar Waith

Er mwyn gallu rhannu arfer dda a sicrhau cynnydd, ac yn lle gweithdrefnau cymedrolï'r gyfundrefn a fu, penderfynwyd sefydlu proses newydd o graffu ar waith disgyblion y 12 ysgol a gallu dysgu o'n gilydd. Dan arweiniad Ysgol Gynradd Lfor Bach, cynhaliwyd dau gyfarfod ymgynghori cychwynnol, un ar gyfer Meithrin/Derbyn i Flwyddyn 5 ac un arall ar gyfer Blynyddoedd 6 a 7. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhithiol yn ystod mis Ionawr ar gyfer pob blwyddyn hyd at Flwyddyn 5 yn y sector cynradd a chytunwyd ar y trefniadau canlynol ar gyfer Blynyddoedd 6 a 7:

- Cyfarfod rhwydwaith dysgu proffesiynol i ddigwydd ar ddechrau mis Gorffennaf
- Bydd athrawon Blwyddyn 6 y cynradd, arweinwyr medrau YGCRh a phenaethiaid Blwyddyn 7 yn mynychu'r cyfarfod
- Canolbwyntio ar waith Rhifedd a Llythrennedd (ysgrifennu Cymraeg a Saesneg) yn y flwyddyn gyntaf
- Pob ysgol i gyflwyno sampl o waith - y disgybl uchaf ei allu yn y dosbarth, disgybl canolig a disgybl ADY o ran anghenion dysgu cyffredinol a/neu SPLD
- Byddwn yn anelu at gynnwys Cymhwysedd Digidol yn y cylch nesaf a sicrhau tystiolaeth o drawstoriad o feysydd dysgu a phrofiad
- Dros gyfnod o amser, byddwn yn creu portffolio digidol o waith y clwstwr

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Nosweithiau Agored

Cynhelir dwy noson agored (neu noson bontio) yn ystod cyfnod disgybl ym Mlwyddyn 6.

Yn ystod mis Medi, cyn i rieni benderfynu ar ysgol uwchradd i'w plentyn a gwneud cais ffurfiol i'r Sir, cynhelir noson agored rithiol ar gygfer rhieni y ddau safle er mwyn rhannu cyfoeth o wybodaeth gyda nhw am y broses bontio, calendr y flwyddyn, amseroedd y dydd, gweithdrefnau, gwisg ysgol, lles a chynhwysiant, cinio, trafniadaeth a llawer mwy. Bydd holl aelodau'r UDA ynghyd â'r Tîm Pontio Ffurfiol yn cyflwyno yn ystod y cyfarfod a bydd penaethiaid Blwyddyn 7 yn creu cyfres o fideos hwyliog gan ddisgyblion yr ysgol yn sôn am eu profiadau ac am wersi gwahanol yn yr ysgol uwchradd. Bydd recordiad o'r cyfarfod yn cael ei uwch-lwytho i wefan bontio arbennig.

Yn ystod ail hanner Tymor yr Haf, gwahoddir rhieni i Gwm Rhymni (safle Gellihaf a'r Gwyndy) am noson o gyflwyniad i'r ysgol, yr adeiladau a'r adnoddau. Bydd y rhieni yn cwrdd ag arweinwyr yr ysgol, Arweinydd CA3 a Phennaeth Blwyddyn 7. Rhoddir cyflwyniad canolog yn neuadd yr ysgol i egluro trefniadaeth yr ysgol a dilynir hyn gan daith o gwmpas yr ysgol o dan ofal athro ac un o arweinwyr yr ysgol. Yn ogystal, ceir cyfle i'r rhieni ofyn cwestiynau ac i drafod ymhellach mewn grwpiau llai ac yn anffurfiol wrth gerdded o gwmpas y safleoedd.

Eleni, fe fydd yr ysgol yn estyn gwahoddiad i rieni Blwyddyn 5 hefyd.

Cynllun Pontio Ychwanegol

Rydym yn gweithredu cynllun Pontio Ychwanegol ar gyfer disgyblion anghenus sy'n cwrdd â meini prawf penodol.

Bydd rhannu gwybodaeth gychwynnol yn rhan annatod o'r broses hynny, er mwyn sicrhau rhestr gyfredol o'r disgyblion Blwyddyn 6 hynny bydd angen pontio ychwanegol ac ym mha ffordd. Fel rhan o'r broses rhannu yma bydd yr isod yn gallu digwydd:

- Mynychir staff yr Adran ADY y cyfarfodydd blynyddol sy'n *Canolbwyntio ar yr Unigolyn* (CCU) ar gyfer disgyblion ADY ym mlynnyddoedd 5 a 6
- Cynhelir cyfarfodydd cychwynnol yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyda staff allweddol Cwm Rhymni a phob ysgol gynradd i drafod unrhyw blant anghenus Blwyddyn 6
- Cynhelir cyfarfodydd interim arall gyda staff cynradd a rhieni unrhyw ddisgyblion Blwyddyn 6 arall bydd angen cefnogaeth targedig ym Mlwyddyn 7 ac yn cwrdd â'n meini prawf pontio ychwanegol

Unwaith bydd rhestr gyfredol o ddisgyblion Pontio Ychwanegol wedi'i gytuno bydd amryw o weithgareddau yn gallu digwydd, gan gynnwys:

Ymweliadau ysgol gyda rhieni/gwarchodwyr; staff allweddol Cwm Rhymni i ymweld ac arsylwi disgyblion yn y cynradd; ymweliadau i adrannau penodol yng Nghwm Rhymni ee yr Hwb, yr Hafan, Ystafell Lles a boreau coffi ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

Er mwyn gweld copi o'r polisi pontio ychwanegol ADY llawn, cysylltwch â Sarah Ward.

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Gweithgareddau Pontio

Cynhelir rhaglen o weithgareddau pontio trwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, fe fydd cynnwys y rhaglen hon yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Dyma flas o'r math o weithgareddau pontio a gynhaliwyd neu sydd ar y gweill:

Diwrnodau Pontio Yn Nhyrnor yr Haf, bydd cyfle i bob disgybl ymweld â safle'r ysgol, cwrdd â'u dosbarth ac athro cofrestru newydd a derbyn gwersi blas.	Gwaith Maes Gwaith ieithoedd a chelfyddydau mynegiannol ar chwedlau a Macbeth. Cynllun gwaith Blwyddyn 6 ' <i>What's Happened to Lulu?</i> '	Siartr Iaith Cynhelir cyfarfodydd rhithiol Google Meet a gweithgareddau er mwyn dathlu digwyddiadau arbennig e.e. Cwis Dydd Gŵyl Ddewi.
MaTh Gweithgareddau ymestynnol, amrywiol a gydlynir gan yr Arweinydd Addysgeg MaTh gan gynnwys Llythrennedd, leithoedd Tramor Modern a STEM.	Cau'r Bwlch Trefnir ymweliadau ychwanegol er mwyn i ddisgyblion bregus ddod i nabod staff YGCRh ac i ymgyswrtu gyda'r safleoedd.	Gwaith Rhithiol Cyfres o dasgau ymestynnol ar gyfer Blwyddyn 6 - Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Mathemateg er mwyn codi hwyl, cynnwrf a dyhead.

Uned Trochi Iaith y Clwstwr

Treuliwyd eleni yn ymchwilio sut i sefydlu uned trochi iaith ar gyfer Clwstwr Ysgolion Cymraeg Sir Gaerffili. Felly, ffurfiwyd gweithgor o uwch-arweinwyr y cynradd a'r uwchradd er mwyn cynnal y gwaith ymwchwil ac i ymweld ag unedau tebyg mewn siroedd eraill e.e. Uned Glan Ceubal yng Nghaerdydd, Uned Bro Teyrnnon yng Nghasnewydd ac Uned Gwaun y Nant ym Mro Morgannwg. Penderfynwyd lleoli ein huned cynradd ar safle Ysgol Gynradd Gilfach Fargod gan ei fod yn ganolog i holl ysgolion y clwstwr. Penodwyd un athrawes ac un cynorthwyydd er mwyn sefydlu'r uned dan arweiniad Jamie Hallet, Pennaeth yr ysgol. Y gobaith mewn dwy flynedd yw creu chwaer uned uwchradd ar un o safleoedd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Canolfan Gwenllian fydd enw'r uned newydd ar ôl merch y Tywysog Llywelyn na chafodd gyfle i ddysgu'r iaith. Yn lle, bydd cenhedlaeth newydd o blant y Sir yn cael dysgu'r Gymraeg yn ei henwi hi.



Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni



Defnyddir **Cwmpawd y Clwstwr** wrth i ni gyfeiriannu ar y cyd trwy'r daith Cwricwlwm i Gymru sydd o'n blaenau.

Cydweithio fel Meysydd Dysgu a Phrofiad

Fe fydd llwyddiant Cwricwlwm i Gymru yn dibynnu'n fawr ar allu pob clwstwr yn Nghymru i fynd i'r afael â chysyniadau 'Yr hyn sy'n bwysig' trwy sicrhau dilyniant clir trwy'r camau cynnydd ac osgoi bylchau yn y dysgu. Er hynny, cydnabuem bwysigrwydd y rhyddid i bob ysgol lunio cwricwlwm unigryw a bod cyd-destun thematig yn amrywio o ysgol i ysgol. Felly, clustnodir diwrnod yn flynyddol er mwyn i arweinwyr y chwe MDaPh yn y 12 ysgol gwrdd er mwyn dechrau trafod a chytuno ar y ffordd ymlaen. Eleni, ffocws y trafodaethau oedd:

1. Cadarnhau sianeli cyfathrebu er mwyn creu cymuned dysgu proffesiynol
2. Trafod sut i ddatblygu'r cysyniadau o'r blynyddoedd cynnar hyd at Flwyddyn 9 yn seiliedig ar hyfforddiant **Impact Wales** a gan ystyried y camau cynnydd
3. Cytundeb ar y terminoleg, gwybodaeth, profiadau a sgiliau mae eu hangen ar bob disgybl yn y clwstwr er mwyn cael mynediad i gwricwlwm Blwyddyn 7

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mathemateg a Rhifedd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Dyniaethau

Y Celfyddydau Mynegiannol

Iechyd a Lles

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	
Ysgol	Arweinydd
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Lynwen John
Ysgol Gynradd Bro Allta	Lloyd Griffiths
Ysgol Gynradd Penalltau	Gwen Malson
Ysgol Gynradd Bro Sannan	Huw Darch
Ysgol Gynradd Gilfach Fargod	Mirain Sellick
Ysgol Gynradd Trelyn	Aled Jones
Ysgol Gynradd y Lawnt	Katherine Scott
Ysgol Gynradd Cwm Derwen	Kathryn Matthews
Ysgol Gynradd Cwm Gwyddon	Emily Rowlands
Ysgol Gymraeg Caerffili	Eleri Jones
Ysgol Gynradd y Castell	Lauren Cole
Ysgol Gynradd Ifor Bach	Dian Morris

Mathemateg a Rhifedd	
Ysgol	Arweinydd
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Rebeca Hayes / Hafina Ault
Ysgol Gynradd Bro Allta	Alun Johnson
Ysgol Gynradd Penalltau	Rhia Whitney-Davies
Ysgol Gynradd Bro Sannan	Huw Darch
Ysgol Gynradd Gilfach Fargod	Amy James
Ysgol Gynradd Trelyn	Rhys Owen
Ysgol Gynradd y Lawnt	Kirsty Watkins
Ysgol Gynradd Cwm Derwen	Bethan Jenkins / Alanah Emmett
Ysgol Gynradd Cwm Gwyddon	Owen Jones
Ysgol Gymraeg Caerffili	Rhodri Jones
Ysgol Gynradd y Castell	Sarah Griffiths
Ysgol Gynradd Ifor Bach	Hannah Perry

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Gwyddoniaeth a Thechnoleg	
Ysgol	Arweinydd
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Tom Pritchard
Ysgol Gynradd Bro Allta	Bethan James a Nia Watkins
Ysgol Gynradd Penalltau	Ashley Gittings
Ysgol Gynradd Bro Sannan	Lisa Young
Ysgol Gynradd Gilfach Fargod	Rhian Darch
Ysgol Gynradd Trelyn	David James
Ysgol Gynradd y Lawnt	Bethan Dalman Jones
Ysgol Gynradd Cwm Derwen	Kathryn Matthews
Ysgol Gynradd Cwm Gwyddon	Jonathan Jones
Ysgol Gymraeg Caerffili	Delyth Barwick
Ysgol Gynradd y Castell	Lowri Davies
Ysgol Gynradd Ifor Bach	Lowri Davies a Sion Hughes

Dyniaethau	
Ysgol	Arweinydd
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Kayley Daniels
Ysgol Gynradd Bro Allta	Trystan Watkins
Ysgol Gynradd Penalltau	Alun Davies a Louise Monico
Ysgol Gynradd Bro Sannan	Lisa Young
Ysgol Gynradd Gilfach Fargod	Beth Chard
Ysgol Gynradd Trelyn	Iwan Roberts
Ysgol Gynradd y Lawnt	Susan Powell
Ysgol Gynradd Cwm Derwen	Kathryn Matthews a Hannah Sayce
Ysgol Gynradd Cwm Gwyddon	Helen Marsh
Ysgol Gymraeg Caerffili	Eleri Jones
Ysgol Gynradd y Castell	Sioned Curran
Ysgol Gynradd Ifor Bach	Hannah Davies a Dian Morris

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Celfyddydau Mynegiannol	
Ysgol	Arweinydd
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Catrin Roberts
Ysgol Gynradd Bro Allta	Gill Roberts
Ysgol Gynradd Penalltau	Leah Rees a Nia Jones-Pritchard
Ysgol Gynradd Bro Sannan	Ieshice Bell
Ysgol Gynradd Gilfach Fargod	Aled Hopton
Ysgol Gynradd Trelyn	Rhiannon Barnett
Ysgol Gynradd y Lawnt	Rebecca Noakes
Ysgol Gynradd Cwm Derwen	Janine Wardill
Ysgol Gynradd Cwm Gwyddon	Mary Parry
Ysgol Gymraeg Caerffili	Catrin Owen
Ysgol Gynradd y Castell	Chelsea Fuge
Ysgol Gynradd Ifor Bach	Rebecca Davies a Cerys Vick

Iechyd a Lles	
Ysgol	Arweinydd
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Rhysian Jenkins
Ysgol Gynradd Bro Allta	Joanne Undery-Walker ac Emmalee Southwood
Ysgol Gynradd Penalltau	Adrienne Gittings
Ysgol Gynradd Bro Sannan	Rhian Lewis
Ysgol Gynradd Gilfach Fargod	Aled Hopton
Ysgol Gynradd Trelyn	Lianne Morris
Ysgol Gynradd y Lawnt	Cari Kinnea
Ysgol Gynradd Cwm Derwen	Rhian Phillips
Ysgol Gynradd Cwm Gwyddon	Kirsty Knight
Ysgol Gymraeg Caerffili	Anna Lewis a Jodie Carter
Ysgol Gynradd y Castell	Harriet John
Ysgol Gynradd Ifor Bach	Lowri Rees a Katie Jenkins

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Y Medrau

Er bod gan bob ysgol anghenion penodol ac, yn sgil hynny, flaenoriaethau unigol, rydym fel clwstwr yn awyddus i ddatblygu strategaethau, creu adnoddau a defnyddio meddalwedd cyson lle bo'n briodol fel bod ein disgyblion yn elwa.

Rhifedd	Llythrennedd	Cymhwysedd Digidol
Sicrhau defnydd dulliau rhifedd cyffredin ar draws y clwstwr fel bod pontio yn llyfn o ran medrau rhifedd - mae'r rhain wedi'u cynnwys yn ein Llawlyfr Rhifedd Clwstwr	- Datblygu llafaredd yw un o flaenoriaethau y clwstwr eleni, felly mae arweinywr llythrennedd y clwstwr wedi sefydlu gweithgor er mwyn datblygu strategaethau Llais 21 - Mae pyramidiau CAAG, adnoddau cefnogol a strategaethau dysgu priodol wedi eu rhannu gyda phob ysgol yn y clwstwr er mwyn datblygu ysgrifennu annibynnol estynedig	- Mae Blwyddyn 5 a 6 pob ysgol gynradd wedi mabywsiadu Google Classroom fel llwyfan waith ddigidol er mwyn hwyluso'r broses bontio gan taw dyma yw porth digidol YGCRh - Fe fydd disgyblion Blwyddyn 6 yn cyflwyno eu gwaith pontio 'What's Happened to Lulu?' trwy Google Classroom

Hyfforddiant Impact Wales

Penderfynwyd mewn cyfarfod '**CWMPAWD**' i wario cyllid dderbyniwyd gan y GCA (er mwyn datblygu addysgeg Cwricwlwm i Gymru) ar raglen hyfforddiant gan y cwmni **Impact Wales**. Dan arweiniad Ysgol Gynradd Ifor Bach, trefnwyd cyfres o sesiynau HMS wyneb yn wyneb ar safle'r Gwyndy ar gyfer uwch-arweinwyr ac arweinwyr addysgeg y cynradd, uwch-arweinwyr ac arweinwyr MDaPh yr uwchradd ynghyd â chyfres o sesiynau rhithiol ar gyfer holl staff addysgu'r ysgolion cynradd. Ffocws yr hyfforddiant buddiol yma oedd:



- Sut i gynllunio'n briodol er mwyn sicrhau **cynnydd**
- Beth, sut a phryd i **asesu**
- Archwilio modelau pwrpasol, gwahanol ar gyfer **tracio** cynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion
- Archwilio sut i **adrodd** ar gynnydd a gallu **trosglwyddo** gwybodaeth / data yn effeithiol

Clwstr Ysgolion Cwm Rhymni

HMS Clwstr - Ebrill 17eg

Y llynedd, cynhaliwyd ein HMS clwstr cyfan cyntaf pan gyfarfu athrawon y cynradd a'r uwchradd yn eu meysydd dysgu a phrofiad er mwyn sefydlu cymunedau proffesiynol gan geisio cyrraedd dealltwriaeth gytûn ar sut i ddatblygu **'yr hyn sy'n bwysig'** trwy'r camau cynnydd. Er mwyn i'r diwrnod deimlo fel cydweithio clwstr cyfan, lleolwyd pob MDaPh ar safleoedd ysgol gwahanol e.e. Dyniaethau yn Ysgol y Lawnt.

Eleni, fe fydd holl athrawon a chynorthwyr y 12 ysgol yn cwrdd ar safle Gellihaf ar gyfer diwrnod uchelgeisiol iawn. Parhau i ddatblygu a chryfhau ein cydweithio wrth gyflwyno a gwreiddio Cwricwlwm i Gymru yw bwriad y diwrnod gyda 3 nod clir:

1

Hyfforddiant pwrpasol ar gyfer
cynorthwyr
(trwy'r dydd)

2

Y ddau sector i gwrdd mewn
MDaPh
(sesiwn prynhawn)

3

Carwsel rhannu arfer dda
Addysgeg CiG
(sesiwn bore)

Yn ogystal, fe fydd ffair o stondinau ar y diwrnod gan gwmnïau a darparwyr byd addysg e.e. **Cwmni Peniarth** er mwyn i athrawon gael cyfle i bori trwy'r adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael i'w cefnogi gyda datblygu Cwricwlwm i Gymru

Y Carwsel Addysgeg: Yn ôl 12 egwyddor addysgeg y cwricwlwm newydd, nod y sesiwn yma yw rhoi cyfle euraidd i holl ymarferwyr y clwstr rannu arfer dda ac i ddysgu strategaethau a methodolegau llwyddiannus wrth ein gilydd. Ymysg y sesiynau ar y diwrnod fydd:

**Her ac
Uchelgais**

**Talk for
Writing**

**Cymhelliant
Bechgyn**

**Meddwl yn
Feirniadol**

**Defnyddio'r
Tyrau PEE**

**Hetiau Meddwl
de Bono**

**Yr Olwyn
Ddysgu**

**Llafaredd:
Llais 21**

**Dysgu yn yr
Awyr Agored**

**Annog
Annibyniaeth**

**Meithrin
Empathi**

**Cwestiynu
Miniog**

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Cynllun Gwaith Tymor 3 - Blwyddyn 6

Er ein bod yn parchu pwysigrwydd yr hawl i bob ysgol greu cwricwlwm lleol sy'n diwallu anghenion penodol eu cymuned a'u disgyblion nhw, cytunem mai doeth yw cael dod at ein gilydd fel clwstwr er mwyn cyd-gynllunio tymor olaf Blwyddyn 6 a thymor cyntaf Blwyddyn 7. Trwy hyn, rhown gyfle i athrawon y ddau sector rhannu arfer dda, cyfrannu at gynlluniau ei gilydd a sicrhau cysondeb ar gyfer trafodaethau cynnydd diwedd Blwyddyn 6 wrth ffurfio dosbarthiadau dysgu Blwyddyn 7.

What has happened to Lulu?

What has happened to Lulu, mother?
What has happened to Lu?
There's nothing in her bed but an old rag-doll
And by its side a shoe.

Why is her window wide, mother,
The curtain flapping free,
And only a circle on the dusty shelf
Where her money-box used to be?

Why do you turn your head, mother,
And why do tear drops fall?
And why do you crumple that note on the fire
And say it is nothing at all?

I woke to voices late last night,
I heard an engine roar.
Why do you tell me the things I heard
Were a dream and nothing more?

I heard somebody cry, mother,
In anger or in pain,
But now I ask you why, mother,
You say it was a gust of rain.

Why do you wander about as though
You don't know what to do?
What has happened to Lulu, mother?
What has happened to Lu?

Y gerdd gyferbyn yw sbardun yr uned waith estynedig ar gyfer eleni, sef *'What's Happened to Lulu?'* Fe fydd yr uned yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu mewn tri MDaPh:

- leithoedd. Llythrennedd a Chyfathrebu
- Iechyd a Lles
- Celfyddydau Mynegiannol

Bydd hefyd llawer o gyfleoedd i ddatblygu medrau iaith a Chymhwysedd Digidol ynghyd â meddwl yn feirniadol, datrys problemau, archwilio a chreu cysylltiadau.

Athrawon Blwyddyn 6

Ysgol	Athro
Ysgol Gynradd Bro Allta	Alun Johnson
Ysgol Gynradd Penalltau	Ashley Gittings
Ysgol Gynradd Bro Sannan	Huw Darch
Ysgol Gynradd Gilfach Fargod	Aled Hopton
Ysgol Gynradd Trelyn	Aled Jones
Ysgol Gynradd y Lawnt	Kath Scott
Ysgol Gynradd Cwm Derwen	Phillipa Greenman
Ysgol Gynradd Cwm Gwyddon	Owen Jones
Ysgol Gymraeg Caerffili	Rhodri Jones ac Eleri Jones
Ysgol Gynradd y Castell	Cath Evans-Lugg a Sioned Curran
Ysgol Gynradd Ifor Bach	Dian Morris a Sion Hughes

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Y Calendr:

Dyddiadau pwysig pontio a gwaith clwstwr

Tymor yr Hydref

Medi	- Cynhelir noson cyflwyno gwybodaeth rhithiol i rieni Blwyddyn 6 - Cyhoeddir gwefan bontio arbennig ar gyfer disgyblion a rhieni Blwyddyn 6 - Sefydlir cyferiad ebost arbennig er mwyn i rieni Blwyddyn 6 gysylltu gyda YGCRh - Cyfarfod diwrnod 'Cwmpawd ein Clwstwr' ym Mryn Meadows	YGCRh YGCRh YGCRh Pob Ysgol	PF PF PF CiG
Hydref	- Cyhelir ymgynghoriad rhwng Tim Pontio Ffurfiol YGCRh ac athrawon Blwyddyn 6 er mwyn gwerthuso a mireinio gweithdrefnau pontio - Cynhelir cyfarfod er mwyn i arweinwyr MDAph YGCRh ac athrawon Blwyddyn 6 gydweithio ar gynlluniau gwaith Tymor 3 BI 6 a T1 BI 7 - Cyfarfod diwrnod 'Cwmpawd ein Clwstwr' yn y Gwyndy	YGCRh YGCRh YGCRh	PF CiG CiG
Tachwedd	- Rhannu Prospectws cyfredol YGCRh gyda rhieni BI 6 ar y wefan bontio - Cychwyn ar raglen hyffordiant Impact Wales ar gyfer 12 ysgol y clwstwr yn ffocysu ar gynllunio, asesu a thracio effeithiol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru - Cyfarfod cychwynol rhwng yr ysgol gynradd a staff allweddol Cwm Rhymni i drafod disgyblion anghenus.	YGCRh Ifor Bach YGCRh	PF CiG PY
Rhagfyr	- Cyflwyniad gan Ryan Jenkins i benaethiaid yr ysgolion cynradd ar Strategaeth Cynhwysiant a Lles newydd YGCRh er mwyn cryfhau gweithdrefnau pontio y dyfodol - Cynhelir cyfarfod cychwynol er mwyn trafod a chytuno gweithdrefnau cymedroli clwstwr	YGCRh Ifor Bach	PF CiG

Y Calendr:

Dyddiadau pwysig pontio a gwaith clwstwr

Tymor y Gwanwyn

Ionawr	- Cynhelir cyfarfod cyd-gynllunio rhwng arweinwyr addysgeg y 12 ysgol er mwyn archwilio ffyrdd o gryfhau rhannu arfer dda ymysg ysgolion y clwstwr ac i baratoi HMS Clwstwr Ebrill - Cynhelir cyfarfod rhwng arweinwyr Siartr Iaith y Cynradd ac Uwchradd er mwyn datblygu cyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol - Cyfarfod diwrnod 'Cwmpawd ein Clwstwr' yn y Gwyndy - Staff Cwm Rhymni yn ymweld â'r disgyblion ADY yn yr ysgol Gynradd.	YGCRh YGCRh Pob Ysgol Pob Ysgol	CiG CiG CiG PY
Chwefror	- Cynnal cyfres o ddiwrnodau cydweithio ar gyfer arweinwyr pob MDAph o 12 ysgol y clwstwr er mwyn dechrau adnabod sut i ddatblygu gwaith y meysydd trwy'r camau cynnydd - Cynhelir cyfres o gyfarfodydd (fesul blwyddyn) i gychwyn ar waith rhwydweithiau dysgu proffesiynol y cwricwlwm newydd - sef fformat newydd y cymedroli a fu o dan yr hen gwricwlwm - Cyhelir cyfarfod er mwyn cytuno ar gymedroli BI 6 a 7 - Cyfarfod rhwng MGM ac Alun Hopwood i weithio ar gynlluniau T3 Blwyddyn 6	YGCRh Pob Ysgol Ifor Bach YGCRh	CiG CiG CiG CiG
Mawrth	- Trosgwyddo ffeiliau CTF a sefydlu cymuned 'Classcharts' er mwyn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda rhieni Blwyddyn 6 - Cyhoeddi cynllun gwaith clwstwr gyfan T3 Blwyddyn 6 'What's Happened to Lulu?' - Hyfforddiant Mick Waters ar gynnydd ac asesu - Cyfarfod diwrnod 'Cwmpawd ein Clwstwr' yn y Gwyndy	YGCRh Gilfach Caerffili Pob Ysgol	PF CiG CiG CiG

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Y Calendr:		Dyddiadau pwysig pontio a gwaith clwstwr	Tymor yr Haf	
Ebrill		- HMS Clwstwr yn ffocysu ar gyd-ddatblygu Cwricwlwm i Gymru - Hyfforddiant Mick Waters ar gynnydd ac asesu	YGCRh Caerffili	CiG CiG
Mai		Trosglwyddo gwybodaeth a data cynnydd gan athrawon BI 6 at YGCRh	Pob Ysgol	PFf
Mehafin		- Ymweliadau gan benaethaid BI 7 ac arweinwyr CA 3 â bob dosbarth Blwyddyn 6 - Cyfarfod rhannu gwybodaeth a setio disgyblion BI 6 - Y Gwyndy - Cyfarfod rhannu gwybodaeth a setio disgyblion BI 6 - Gellihaf - Hyfforddiant Mick Waters ar gynnydd ac asesu - Cyfarfod ar gyfer llywodraethwyr y clwstwr er mwyn derbyn cyflwyniad gan MGM ac i lofnodi cynllun pontio 2023-34	YGCRh YGCRh YGCRh Caerffili YGCRh	PFf PFf PFf CiG CiG
Gorffennaf		- Noson agored ar gyfer rhieni blynyddoedd 5 a 6 ymweld ar safleoedd y Gwyndy a Gellihaf - Cyfarfod rhwydwaith dysgu proffesiynol er mwyn craffu ar waith llythrennedd a rhifedd BI 6 a 7 - Diwrnodau pontio er mwyn i ddisgyblion BI 6 ymweld â safleoedd YGCRh, dod i nabod athrawon, derbyn gwersi blas a chwrdd â'u dosbarth cofrestru - Cyhoeddi dosbarthiadau dysgu (setiau) BI 6 a fideos gan athrawon cofrestru	YGCRh Pob Ysgol YGCRh YGCRh	PFf CiG PFf PFf

Sianeli Cyfathrebu



Cyfeiriad ebost arbennig
blwyddyn6@ygcwrmrhymni.net

Derbyn negeseuon uniongyrchol o'r
Pasg trwy **ClassCharts**



ClassCharts

Cyfoeth gwybodaeth ar
y **Wefan Bontio**





Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni

Derbyn y Ddogfen er mwyn ei Chyhoeddi

Llofnodwyd y ddogfen hon gan bennaeth pob ysgol y clwstwr ar ran y llywodraethwyr ar
Fawrth 9fed, 2023.

Mr Matthew Webb, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni:

M Webb

Mrs Helen Nuttall, Ysgol Gynradd y Castell:

H. Nuttall

Mr Lynn Griffiths, Ysgol Gymraeg Caerffili:

W Lynn Griffiths

Mrs Sarah Edmunds, Ysgol Gynradd Ifor Bach:

S Edmunds

Mrs Meinir Jones, Ysgol Gynradd Bro Allta:

M. Jones

Mrs Andrea Woods, Ysgol Gynradd Penalltau:

A Woods

Mr Jamie Hallett, Ysgol Gynradd Bro Sannan:

J Hallett

Mr Jamie Hallett, Ysgol Gynradd Gilfach Fargod:

J Hallett

Mrs Liz Owen, Ysgol Gynradd Trelyn:

A Jones (Ar ran Liz Owen)

Mrs Sharon Davies, Ysgol Gynradd y Lawnt:

S Davies

Mrs Kathryn Matthews, Ysgol Gynradd Cwm Derwen:

K Matthews

Mrs Helen Marsh, Ysgol Gynradd Cwm Gwyddon:

Helen Marsh

Clwstwr Ysgolion Cwm Rhymni



Cynllun Pontio 2022-2023